ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD FFORWM Y CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 3ydd Rhagfyr 2004, am 10.30am yn Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Y Cynghorydd P Palmer (C)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd D C Evans	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd P A Rees	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd D Lewis	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd A Robinson	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd B Hall	Cyngor Sir Penfro
Y Cynghorydd R G Harris	Cyngor Sir Ceredigion

Swyddogion

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Eifion Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Philip Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Hugh Towns	Cyngor Sir Caerfyrddin
Roy Probert	Dinas a Sir Abertawe
Tony Glacken	Dinas a Sir Abertawe
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro / Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-orllewin Cymru)
Andy Street	SLR Consulting Ltd

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd K Evans	Cyngor Sir Ceredigion
Mrs M Taylor	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Y Cynghorydd P A Hacking	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd R R Hayes	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont

2. Cofnodion cyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 24ain Medi 2004

Nodwyd bod y Cynghorydd R G Harris wedi cael ei hepgor o'r rhestr bresenoldeb. **Gweithredu**: CM i ddiwygio'r cofnodion.

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol ar 1af Tachwedd 2004 – Nodwyd.

4. <u>Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol ar 23ain Tachwedd 2004</u> – Nodwyd.

Eitem 5: Eglurodd HB y sefyllfa ynglŷn â'r bil ychwanegol ar gyfer SLR Consulting Ltd., mewn perthynas â'r gwaith a wnaed ar gyfer y Grŵp Swyddogion Trefol Rhanbarthol.

5. <u>Adendwm y CGRh:</u>

- **Cynnydd ar waith y Grŵp Swyddogion Trefol Rhanbarthol (Cyflwyniad gan SLR Consulting Ltd)**

Rhoddodd Andy Street gyflwyniad ar Adroddiad y Datganiad Sefyllfa "*Ymagwedd Ranbarthol tuag at Reoli Gwastraff Bwrdeistrefol*".

Darparodd y cyflwyniad adolygiad o'r ddarpariaeth isadeiledd ar gyfer gwastraff bwrdeistrefol yn Ne-orllewin Cymru, asesiad o'r opsiynau sydd ar gael i'r Rhanbarth a chrynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion.

O fewn cyd-destun y Rhanbarth yn cyflawni'r targedau amrywiol, amlinellwyd y pedwar opsiwn canlynol:

- *Opsiwn 1*: mae pob awdurdod yn darparu ei le trin ei hun (ymagwedd heb fod yn rhanbarthol);
- *Opsiwn 2*: derbyn ymagwedd bartneriaeth (ar y cyd rhwng dau awdurdod neu fwy);
- *Opsiwn 3*: 'cronni' lwfansau (sy'n gwrthdaro â'r cyd-destun cyfreithiol cyfredol yng Nghymru); ac
- *Opsiwn 4*: darparu cyfleusterau trin gweddilliol a leolwyd yn strategol gyda phob awdurdod yn 'prynu i mewn' y gofyniad lle.

Yn sgîl yr uchod, argymhellwyd y canlynol:

- Bod pob awdurdod yn ystyried yr angen am le trin gwastraff gweddilliol yn y dyfodol;
- Dylid cynnal yr adolygiad hwn o fewn cyd-destun y CGRh, Strategaethau Gwastraff Bwrdeistrefol a'r Cynllun Lwfans Claddu Sbwriel;
- Dylai'r adolygiad gael ei gynnal o fewn amserlen gytunedig (3 mis); ac
- Mae angen cytuno ar ymagwedd ranbarthol gyffredinol tuag at drin gwastraff gweddilliol.

Nodwyd y prif bwyntiau canlynol o'r drafodaeth:

- ni fyddai LlCC yn caniatáu ar gyfer 'cronni' targedau. Ond bydd y Rheoliadau'n cael eu hadolygu yn 2007;
- wrth ystyried gofynion yr isadeiledd, mae'n hanfodol cynnwys ffrydiau gwastraff eraill (h.y. Diwydiannol a Masnachol);
- wrth ystyried cronni, dylid ystyried barn y ddau grŵp rhanbarthol arall;
- mae'n bwysig ystyried gallu'r Diwydiant i ddarparu'r isadeiledd angenrheidiol;
- mae WESA wedi dweud na fydd cyfleusterau'n cael eu datblygu oni bai bod contractau tymor hir ar waith;
- ni ddylid esgeuluso mater gwastraff peryglus – nodwyd bod gofyniad yn bodoli yn y contract ar gyfer pob un o'r tri awdurdod blaen yng Nghymru i "*adolygu ac ymgynghori ar gyfleusterau posib ar gyfer gwastraff peryglus*".

- **Adroddiad Cynnydd – Datganiad Sefyllfa**

Cyflwynwyd argymhelliad diwygiedig yn y cyfarfod i'w ystyried. **Cytunwyd** ar y canlynol:

- Pob awdurdod i ystyried lobïo gwleidyddol ynglŷn â mater cronni ac adrodd yn ôl i'r Fforwm; a
- Phob awdurdod gwastraff i adrodd i'r Fforwm o fewn 3 mis ar eu cynigion i gyflawni gofynion

Rheoliadau Cynllun Lwfans Claddu Sbwriel (Cymru) 2004 a'r angen am le trin gwastraff gweddilliol yng nghyd-destun y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol presennol a Strategaethau Rheoli Gwastraff Trefol unigol.

Gadawodd Andy Street y cyfarfod.

6. Ymchwil Mapio GIS: Diweddariad ar y Cynnydd

Adroddodd GW am y cynnydd sy'n cael ei wneud ar yr Ymchwil Mapio GIS.

Mae LlCC wedi nodi bod eu tîm GIS yn Aberystwyth wedi mynegi diddordeb mewn ymgymryd â'r ymchwil. Ond, nid yw'r penderfyniad terfynol o ran a fydd yr ymchwil yn cael ei gwneud yn fewnol neu'n cael ei thendro i ymgynghorwyr allanol wedi cael ei gadarnhau eto.

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

I'w gadarnhau.

8. Unrhyw fater arall

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.